

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2009. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019855

Conwy

Taith hanesyddol o gwmpas tref Conwy, gan ymweld â'r castell, waliau'r dref, Tŷ Aberconwy, Plas Mawr a llefydd eraill o ddiddordeb.

Mae'r maes parcio ger y castell yn gyfleus i'r daith hon (codir tâl i barcio yn y maes parcio hwn.)

Mae'r daith yn cychwyn wrth fynedfa mur y dref ger Canolfan Ymwelwyr Conwy (Stryd Rose Hill) gyferbyn â'r gwesty Town House. Mae dau ddewis i ddechrau.

Opsiwn A

Ewch drwy fynedfa'r mur a dringwch y grisiau pren a cherddwch ar hyd llwybr y wal tuag at fynedfa'r castell.

Opsiwn B

Dilynwch yr arwydd am y castell a cherddwch trwy'r maes parcio at y mynedfa. Gallwch edmygu'r castell o'r fan hon.



1. Castell Conwy

Codwyd y castell sy'n edrych dros afon Conwy gan Edward I yn 1283, yn fuan wedi marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf. Un o'i nodweddion yw'r wyth tŵr sy'n dal i sefyll, a dywedir mai dyma gastell mwyaf mawreddog o blith rhai Edward I.

Am hanes llawn y castell, ewch i'n adran Cestyll ar wefan Hanes BBC Cymru - bbc.co.uk/hanes

Codir tâl i fynd i mewn – manylion ar wefan CADW. www.cadw.wales.gov.uk/
Gallwch fynd i mewn i'r ganolfan ymwelwyr a'r siop ym mynedfa'r castell yn ddi-dâl.

O faes parcio'r castell ewch at y brif ffordd (Stryd Rose Hill). O'ch blaen fe welwch hen adeilad gyda'r dyddiad 1887 arno a'r llythrennau A W. Llythrennau cyntaf enw Albert Wood yw'r rhain a dyma adeilad hen ysgol bechgyn Conwy. Adeiladodd Albert Wood, Bodlondeb dair ysgol yn y dref. (Fe ddown at Ysgol y Merched ar ddiwedd y daith.)

Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y brif ffordd tuag at bont grôg Thomas Telford (mae arwyddion du a gwyn yn arwain y ffordd.) Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd Stryd Rose Hill. Ar ôl mynd rownd y gornel fe welwch y castell a'r bont. (Byddwch yn mynd heibio neuadd y dref ar y gornel ar y dde.)

Croeswch y brif ffordd brysur wrth y goleuadau traffig a'r groesfan i gerddwyr ac ewch at y bont grôg o'ch blaen. Gwelwch arwydd i'r fynedfa o'r palmant. Cewch olygfa drawiadol o'r bont o'r fan hon neu gallwch dalu i gerdded drosti.



2. Pont grôg Thomas Telford

Cynlluniwyd ac adeiladwyd y bont gan Thomas Telford yn 1826. Cewch olygfeydd dros y dref a nôl at y castell o'r fan hon.

Agorwyd y bont dros yr Afon Conwy yn 1826 gan greu llwybr masnachol rhwng Cymru, yr Amwythig a'r Iwerddon. Cyn y bont, mewn cwch oedd yr unig ffordd i groesi'r afon. Hon oedd y brif ffordd i mewn i dref Conwy tan 1958. Mae rhai o drigolion y dref yn cofio gorfod dod allan o'r bws ysgol a cherdded ar draws y bont gan bod pwysau'r bws yn gwneud i'r bont siglo! Drws nesaf i bont Telford mae pont reilffordd Stevenson, mae trenau yn parhau i deithio drosti heddiw. Pont i drafnidiaeth yw'r drydedd bont a welir yma hefyd.

Mwy am dair pont Conwy ar wefan Conwy BBC Lleol - bbc.co.uk/cymru/gogleddorllewin/safle/conwy/

(Ewch i wefan Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am fwy o wybodaeth am gost cerdded dros y bont, oriau agor ac yn y blaen - www.nationaltrust.org.uk/)

Ewch yn ôl yr un ffordd gan groesi'r brif heol wrth y goleuadau traffig, gan gerdded trwy'r ardd flodau a heibio'r ffynnon. Cerddwch at y Cei o dan y mur (trwy'r bwa) sef Custom House Terrace. (Mae arwydd du a gwyn yn dangos y ffordd i'r Cei.)

Ewch i'r chwith a cherddwch ar hyd y Cei heibio i orsaf bad achub Conwy a'r Amgueddfa Cerrig Gleision ar y chwith. Arferai'r Cei fod yn brysur iawn gyda physgotwyr. Mae pysgotwyr cerrig gleision yma o hyd, ond gwelir cychod pleser yma hefyd. Mae meinciau yma i gymryd hoe a mwynhau'r olygfa dros y dŵr at Ddeganwy ac yn ôl at y castell a'r bont.



3. Tŷ Lleiaf ym Mhrydain

Cariwch ymlaen ar hyd y Cei ac ar y chwith gwelwch y Tŷ Lleiaf ym Mhrydain.

72 modfedd o led a 122 modfedd o uchder yw maint y tŷ bach hwn. Pysgotwr oedd y diwethaf i fyw yma a dywedir ei fod yn 6 troedfedd 3 modfedd o daldra! Gallwch weld y tŷ o'r Cei neu dalu pris mynediad i fynd i mewn.

Ewch yn ôl ar hyd y Cei heibio i dafarn y Liverpool Arms ac i fyny Lower Gate Street o dan y bwa yn y mur. (Mae cyfleusterau cyhoeddus yma.) Cyrhaeddwch Stryd y Castell.




4. Tŷ Aberconwy

O'ch blaen, ar y chwith, ar y cornel gyda'r Stryd Fawr, mae Tŷ Aberconwy.

Mae'n dyddio o'r 14eg ganrif, credir mai dyma'r tŷ trefol hynaf yng Nghymru. Mae'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol erbyn hyn. Mwy am dŷ Aberconwy ar wefan Conwy BBC Lleol - bbc.co.uk/cymru/gogleddorllewin/safle/conwy/

Ewch syth yn eich blaen i fyny'r Stryd Fawr. Mae hon yn stryd o siopau a thai bwyta. Cerddwch ar ochr chwith y stryd. Yn syth ar ôl pasio Gwesty'r Castell ar y chwith, gwelwch lôn gul yn arwain at Eglwys Santes Fair a'r Holl Saint. Ewch draw at yr Eglwys.



5. Eglwys Santes Fair a'r Holl Saint.

Mae'n debyg bod sylfaen yr Eglwys hon wedi bodoli yma ers 1173, cyn Castell Conwy a muriau'r dref. Adeiladwyd yr Eglwys ar safle Eglwys yr Abaty Sisteraidd a sefydlwyd gan Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr) ar ddiwedd y 12fed ganrif. Bu William Wordsworth yma un haf a chafodd ei ysbrydoli i ysgrifennu'r gerdd 'We Are Seven'.

Ewch yn ôl allan i'r Stryd Fawr ac ochr arall y ffordd gwelwch Plas Mawr.



6. Plas Mawr

Mae'n adeilad trawiadol o Oes Elisabeth. Robert Wynn, masnachwr dylanwadol oedd y perchennog ac fe'i adeiladwyd yn yr 16eg ganrif.

(Am oriau agor, pris mynediad ac yn y blaen, ewch i wefan Cadw - www.cadw.wales.gov.uk/)

O'r Plas Mawr, cariwch ymlaen i fyny Stryd Fawr a dewch at Sgwâr Lancaster. O'ch blaen fe welwch gerflun Llywelyn ab Iorwerth, sefydlydd Abaty Conwy yn 1184.

Ewch i'r dde ar y sgwâr i fyny Ffordd Bangor (bydd Gorsaf yr Heddlu i'r dde.) Mae muriau'r dref o'ch blaen. Cyn dod at y muriau, ewch i'r dde i Stryd y Capel a gwelwch blaciau difyr ar y wal, cewch gyfle am dipyn o wers Cymraeg! Yma mae'r wyddor Cymraeg, enwau siroedd Cymru, dyddiau'r wythnos a rhifau yn y ddwy iaith! Fe welwch Yorke Place yma – sydd wedi ei enwi ar ôl John Williams, Archesgob Efrog yn y 16eg ganrif a anwyd yng Nghonwy.

Yn ôl ar Stryd Bangor fe ddewch at furiau'r dref.

Opsiwn A

Os nad ydych yn dymuno cerdded ar hyd muriau'r dref, cerddwch o dan y bwa a throwch i'r dde. Dilynwch y ffordd fawr i lawr tuag at y Cei (bydd muriau'r dref ar y dde i chi.)

Opsiwn B

7. Muriau'r dref

Dringwch y grisiau a cherddwch ar hyd muriau'r dref i lawr at y Cei – gwelwch olygfeydd arbennig o'r Cei, y castell a'r muriau. Noder – bydd angen esgidiau addas arnoch gan bod yr arwyneb yn anwastad. Hefyd nid yw'r llwybr hwn yn addas i'r rhai sy'n ofn uchder! (Mae placiau gan Cadw yn nodi'r peryglon – darllenwch y rhain cyn dringo'r grisiau)



Opsiwn A & B yn ymuno ar Berry Street.

Os fyddwch yn cerdded y wal neu ar hyd y brif ffordd, byddwch yn cyrraedd yr un pwynt ar Stryd Berry (Burial Street oedd yr enw gwreiddiol ar y ffordd yma – lle arferai mynachod o'r Abaty gael eu claddu.)

Cerddwch ar hyd Stryd Berry ac ymlaen ar hyd Stryd y Castell gan basio Tŷ Aberconwy ar y dde. Ar dop Stryd y Castell throwch i'r dde i fyny Stryd Rose Hill at y Castell.

Ewch at adeilad Canolfan Dwristiaid y dref – dyma hen Ysgol y Merched y dref a adeiladwyd gan Ambrose Wood, Bodlondeb.

Dyma ddiwedd y daith.